**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**National Assembly for Wales**
Health and Social Care Committee

Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

18 Chwefror 2016

Annwyl Mark,

**Sesiwn graffu gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: gofal preswyl i bobl hŷn**

Fel y gwyddoch, gwahoddwyd Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, i gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 20 Ionawr 2016. Prif nod y cyfarfod oedd clywed barn y Comisiynydd am y camau a gymerwyd hyd yma i weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ar ofal preswyl i bobl hŷn ac yn adolygiad y Comisiynydd o gartrefi gofal.

Ers sefydlu'r Pwyllgor yn 2011, mae wedi craffu cryn dipyn ar bolisïau a deddfwriaeth yn ymwneud â'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ymchwil i ofal preswyl i bobl hŷn oedd un o ymchwiliadau polisi cyntaf y Pwyllgor ac mae'n cydnabod y cynnydd rydych wedi'i nodi mewn perthynas â'r argymhellion penodol yn ei adroddiad.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod llawer o'r argymhellion a gyflwynwyd yn dilyn yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn wedi'u hadlewyrchu mewn deddfwriaeth ddilynol, a hynny'n bennaf yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi craffu ar Reoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 a'r Codau Ymarfer cysylltiedig a ddeilliodd o Ddeddf Gwasanaethau



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Wrth i'r Pwyllgor agosáu at ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, mae'n falch o'r dylanwad y mae wedi'i gael wrth geisio gwella'r tirlun deddfwriaethol yn y maes pwysig hwn.

Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor, dywedodd y Comisiynydd ei bod yn awr wedi'i sicrhau'n ddigonol fod Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn gwneud digon o gynnydd i wella safonau ym maes gofal preswyl. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi eto fod yr holl ddatblygiadau'n mynd rhagddynt yn ddigon cyflym. O ganlyniad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu sicrhad ac eglurhad pellach ynghylch nifer o faterion sydd wedi'u hatodi isod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Comisiynydd ac AGGCC gan ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â'u gwaith.

O ystyried ei gyfrifoldeb cyffredinol o fewn y Cabinet dros benodiadau cyhoeddus, rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr at Brif Weinidog Cymru o gofio'r trafodaethau a gafwyd ynghylch yr angen i geisio sicrhau cydraddoldeb rhwng tymor gwasanaeth y gwahanol Gomisiynwyr statudol yng Nghymru.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb gennych chi ynghylch y materion a nodir yn yr atodiad, a hynny cyn diwedd y Cynulliad hwn. Byddai hefyd yn croesawu ymateb gan Brif Weinidog Cymru ynghylch y materion yn ymwneud â'r broses o benodi Comisiynwyr.

Yn gywir

David F. Rees.

**David Rees AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Imelda Richardson, Prif Arolygydd, AGGCC

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru

# Atodiad A

## Tystiolaeth o gynnydd mewn perthynas â gofal preswyl i bobl hŷn

**01.** Un maes y mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio arno yn ystod y Pedwerydd Cynulliad yw ansawdd gofal preswyl i bobl hŷn. Gan hynny, roedd y Pwyllgor yn awyddus i gael adroddiad cynnydd gan y Comisiynydd Pobl Hŷn a Llywodraeth Cymru cyn yr etholiad, yn ymwneud â'r canlynol:

- Yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ynghylch gofal preswyl i bobl hŷn; ac
- Adolygiad y Comisiynydd o gartrefi gofal.

**02.** Cafodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd y Comisiynydd ar 18 Rhagfyr 2015 ac roedd yn cynnwys nifer o adroddiadau cynnydd gan AGGCC a Llywodraeth Cymru. Ar sail yr adroddiadau cynnydd hyn a'i gwaith maes ei hun, tanlinellodd y Comisiynydd yr agweddau hynny ar faes gofal preswyl a oedd, yn ei barn hi, wedi newid er gwell gan gynnwys:

- bwriad Llywodraeth Cymru i ehangu system cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol yn 2020 a 2022;
- penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddatblygu 'Datganiad cenedlaethol o hawliau' yn esbonio hawliau preswylwyr cartrefi gofal; ac
- penderfyniad cartrefi gofal a byrddau iechyd i gyhoeddi gwybodaeth am y modd y defnyddir meddyginiaeth gwrthseicotig yng nghartrefi gofal Cymru.[1]

Nododd hefyd yr agweddau hynny ar gartrefi gofal sy'n parhau i beri pryder, gan gynnwys:

- hawliau dynol
- eiriolaeth annibynnol;
- cymorth i'r rhai â dementia;
- hyfforddi staff;

---

[1] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

– comisiynu gwasanaethau.[2]

**03.** Ym mis Awst[3] a mis Tachwedd[4] 2015 tynnodd y Comisiynydd sylw at y ffaith nad oedd Llywodraeth Cymru ac AGGCC wedi llwyddo i'w sicrhau'n ddigonol eu bod yn cydymffurfio â'r anghenion gweithredu roedd wedi'u nodi ac wedi rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith. Fodd bynnag, ar 23 Rhagfyr 2015, ysgrifennodd y Comisiynydd atoch chi, AGGCC, a'r Pwyllgor i ddweud ei bod yn awr wedi'i sicrhau'n ddigonol gan Lywodraeth Cymru ac AGGCC.[5]

**04.** Pan holwyd y Comisiynydd am y gwrthgyferbyniad rhwng ei phryderon ym mis Awst a mis Tachwedd 2015 a'r sicrwydd a deimlai'n fwy diweddar, esboniodd y Comisiynydd fod hyn i'w briodoli i nifer o gyfarfodydd a sgyrsiau heriol gydag AGGCC a Llywodraeth Cymru yn ystod tymor yr hydref 2015.[6] Nododd y Comisiynydd fod y trafodaethau hyn wedi rhoi'r 'sicrwydd digonol' iddi fod y Llywodraeth wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r anghenion gweithredu roedd wedi'u nodi ac i sicrhau'r canlyniadau roedd hi a'r Pwyllgor wedi penderfynu eu bod yn angenrheidiol.[7]

**05.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd a nododd y Comisiynydd a'r ffaith ei bod wedi'i sicrhau bod gofal preswyl yng Nghymru wedi gwella, ac y bydd yn parhau i wella. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn credu bod angen tystiolaeth fwy pendant o gynnydd i gyfiawnhau'r ffaith bod ei barn wedi newid cymaint yn ystod y misoedd diwethaf.

| |
|---|
| Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd ac eraill yn sicrhau bod asesiadau o gynnydd a datganiadau o sicrwydd yn y dyfodol yn cael eu seilio ar dystiolaeth fwy tryloyw. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhesymau dros unrhyw sicrwydd a roddir yn llawer cliriach i'r Pwyllgor olynol a'r cyhoedd. |

---

[2] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru,
[3] Ibid, atodiad A
[4] Ibid, atodiad B
[5] Ibid, atodiadau E – G
[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cofnod y trafodion [paragraffau 15-16], 20 Ionawr 2016 (DS: oni nodir yn wahanol, pan gyfeirir at "Gofnodion y Trafodion" o hyn ymlaen yn yr adroddiad hwn, trafodion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd dan sylw).
[7] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, atodiad G

## Eiriolaeth annibynnol

**06.** Mae'r pwysigrwydd y mae'r Pwyllgor yn ei briodoli i wasanaethau eiriolaeth annibynnol yn amlwg – o'i ymchwiliad cynnar i ofal preswyl i bobl hŷn, i'w waith craffu mwy diweddar yn ymwneud â deddfwriaeth gofal cymdeithasol. Mae wedi tanlinellu droeon bwysicrwydd sicrhau bod gwasanaethau eirioliaeth annibynnol ar gael i'r rhai y mae eu hangen arnynt, i sicrhau bod eu barn a'u dymuniadau'n cael eu clywed, a'u bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal.[8] Mae'r Comisiynydd hefyd wedi pwysleisio 'bod eiriolaeth annibynnol yn allweddol o ran gwella ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn drwy sicrhau bod eu llais yn ei glywed a'u hawliau'n cael eu parchu'.[9]

**07.** Croesawodd y Pwyllgor y ddarpariaeth estynedig ar gyfer eiriolaeth statudol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r gofyniad a greodd i sicrhau bod yr angen i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth yn cael ei sefydlu drwy reoliadau. Fodd bynnag, yn ei thystiolaeth lafar, nododd y Comisiynydd nad yw wedi'i hargyhoeddi eto fod y darpariaethau yn y Ddeddf yn ddigon cryf, gan esbonio fod y cod ymarfer, fe ymddengys, yn creu nifer o rwystrau sy'n atal pobl rhag manteisio ar wasanaethau o'r fath.[10]

**08.** Yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar ar 20 Ionawr, dywedodd y Comisiynydd ei bod yn pryderu ynghylch cynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau eiriolaeth annibynnol o safon. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod cyllid AdvantAGE, y Gronfa Loteri Fawr, wedi dod i ben a phwysleisiodd ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gymryd camau i feithrin eu cysylltiadau cynaliadwy mwy hirdymor eu hunain gyda gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, yn unol â'r dyletswyddau a osodir arnynt gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Os na fydd hyn yn digwydd, aeth y Comisiynydd rhagddi i ddweud ei bod yn pryderu y gallai'r gwasanaethau eiriolaeth annibynnol fod dan fygythiad. Esboniodd y byddai hyn yn niweidiol nid yn unig i unigolion yn uniongyrchol, ond hefyd i amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn ac i'r pwrs cyhoeddus.[11]

---

[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru, Rhagfyr 2012

[9] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 'Lle i'w alw'n gartref?' – Adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru, Tachwedd 2014

[10] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

[11] Cofnod y trafodion [paragraff 100], 20 Ionawr 2016

Mae'r Pwyllgor yn ategu pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gael. Mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn cael eu hariannu'n briodol ac mewn ffordd gynaliadwy ledled Cymru. Mae'n gofyn barn y Gweiniodog am bryderon y Comisiynydd ynghylch y Cod Ymarfer mewn perthynas ag eiriolaeth, sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Aseswyr lleyg

**09.** Yn ystod ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn yn 2011, hysbyswyd y Pwyllgor y byddai aseswyr lleyg yn cael eu recriwtio i gynnal arolygiadau. Yn dilyn hynny, galwodd ar Lywodraeth Cymru ac AGGCC i sicrhau bod aseswyr lleyg yn cael eu hyfforddi'n ddigonol a bod y gallu ganddynt i ymgymryd â'u gwaith. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai angen monitro a gwerthuso'r sefyllfa'n barhaus i sicrhau bod y newidiadau gofynnol yn cael eu gwneud a bod canlyniadau boddhaol yn cael eu sicrhau.[12]

**10.** Mae'r Comisiynydd hefyd wedi dweud droeon ei bod yn credu bod aseswyr lleyg yn rhan bwysig o'r broses arolygu. Yn ei adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2015, dywedodd y gallai adran 41 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 fynd ymhellach a rhoi lle pendant ac ystyrlon i bobl gyffredin yn y broses arolygu'.[13]

**11.** Yn ystod y broses o graffu ar Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), nododd y Pwyllgor bwysigrwydd defnyddio aseswyr lleyg i gyfoethogi'r wybodaeth sydd ar gael am ansawdd bywyd a phrofiadau'r rhai sy'n cael gofal preswyl. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod cost ynghlwm wrth recriwtio, hyfforddi a chefnogi aseswyr lleyg, argymhellodd y dylid diwygio'r Bil i osod dyletswydd at AGGCC i gynnwys y gofyniad i ddefnyddio aseswyr lleyg fel rhan annatod o'i waith rheoleiddio ac arolygu.[14] Yn eich ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, nodir nad oeddech wedi'ch

---

[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru, Rhagfyr 2012

[13] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, Gorffennaf 2015

argyhoeddi bod angen y gofyniad i AGGCC ddefnyddio arolygwyr lleyg ond roeddech yn cytuno y dylai'r cyhoedd fod yn rhan o'r broses arolygu.[15]

12. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad polisi (neu'r datganiad diwygiedig) ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd, ymdrin â chynnwys y cyhoedd mewn arolygiadau o wasanaethau a chynnwys gofalwyr (fel y'u diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) wrth arfer swyddogaethau rheoleiddio.[16] Serch hynny, mae'n nodi bod Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd yn parhau i anghytuno ynghylch defnyddio aseswyr lleyg.[17]

| |
|---|
| Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod lleisiau preswylwyr cartrefi gofal yn cael eu clywed. Mae'n credu y dylid defnyddio'r holl fecanweithiau sydd ar gael – gan gynnwys defnyddio aseswyr lleyg – i sicrhau bod gan y rhai sy'n rhedeg, yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau gofal preswyl ddealltwriaeth glir o fywyd bob dydd mewn cartref gofal. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru esbonio ymhellach sut y mae'n rhagweld y gellir rhoi llais i breswylwyr yn y modd y caiff gwasanaethau gofal preswyl eu rheoleiddio, eu harolygu a'u rhedeg. |

## Gweithredu'n seiliedig ar hawliau

13. Un o'r themâu a gododd wrth i'r Pwyllgor graffu ar Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) oedd yr angen i weithredu'n seiliedig ar hawliau. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai 'hawliau pobl, a'r gallu i ddwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif o ran galluogi a pharchu'r hawliau hynny, yn cryfhau drwy osod dyletswydd sylw dyledus ar wyneb y Bil '.[18] Yn eich ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, nodwyd y byddai'r ddeddfwriaeth yn diogelu buddiannau unigolion sy'n agored i niwed ac nad oedd angen i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan ei darpariaethau roi sylw dyledus i Gonfensiwn y

---

[15] Llywodraeth Cymru, Ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fil Rheoleiddio ar Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), 8 Medi 2015

[16] Llywodraeth Cymru, Tabl diben ac effaith ar gyfer y gwelliannau Cyfnod 2 i Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a gyflwynwyd ar 23 Medi 2015, Medi 2015

[17] Cofnod y trafodion [paragraff 106], 20 Ionawr 2016

[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, Gorffennaf 2015

Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.[19]

14. Yn ystod y sesiwn ar 20 Ionawr, esboniodd y Comisiynydd ei bod yn croesawu'r Datganiad o hawliau pobl hŷn Cymru, a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014, ond credai y gellid gwneud rhagor 'ar lawr gwlad' i ymgorffori dulliau o weithredu'n seiliedig ar hawliau. Er mwyn cyflawni ei nod o sicrhau bod y dull o weithredu'n seiliedig ar hawliau'n cael effaith amlwg ar fywydau pobl, a bod y cyhoedd yn ei ddeall, roedd yn gweithio gyda phanel o arbenigwyr er mwyn gweithio gyda Llywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno un darn o ddeddfwriaeth. Dywedodd wrth y Pwyllgor mai nod y ddeddfwriaeth fyddai dwyn ynghyd 'nifer o offerynnau rhyngwladol cydnabyddedig a gynlluniwyd i amddiffyn hawliau pobl hŷn ac i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodwyd'.[20]

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r manteision posibl y gallai darn tebyg o ddeddfwriaeth eu cynnig yn y dyfodol o ran grymuso pobl hŷn. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Comisiynydd ei bod yn bwysig sicrhau bod deddfwriaeth yn ystyrlon i'r rhai y mae'n effeithio arnynt, pobl hŷn a deiliaid dyletswydd. At hyn, mae'n cytuno y dylid cynnal ymgynghoriad eang â grwpiau perthnasol wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

## Hyfforddiant gorfodol i staff

15. Yn ei adroddiad ar ofal preswyl i bobl hŷn, a gyhoeddwyd yn 2012, soniodd y Pwyllgor am bwysigrwydd sicrhau bod staff cartrefi gofal yn cael eu hyfforddi'n ddigonol. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru neilltuo rhagor o gyllid i wella lefelau sgiliau ac ymwybyddiaeth o gyflyrau arbenigol.[21] Yn ystod ei hadolygiad o gartrefi gofal, clywodd y Comisiynydd mai'r unig hyfforddiant sylfaenol roedd yn rhaid ei ddarparu i staff gofal ar hyn o bryd cyn caniatáu iddynt ddechrau gweithio fel gofalwyr mewn cartref

[19] Llywodraeth Cymru, Ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fil Rheoleiddio ar Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), 8 Medi 2015

[20] Cofnod y trafodion [paragraffau 50 – 55], 20 Ionawr 2016 Llywodraeth Cymru

[21] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru, Rhagfyr 2012

gofal oedd hyfforddiant  codi a chario, diogelwch tân ac iechyd a diogelwch.[22] Nododd hefyd fod nifer sylweddol o staff gofal (tua 40 y cant o'r gweithlu) yn darparu gofal heb yr hyfforddiant sylfaenol hwn hyn yn oed. Roedd pryder na fyddai hyn yn paratoi unigolion i ddeall anghenion pobl hŷn a’u galluogi i ddarparu cymorth priodol.[23]

16. Gan ystyried y dystiolaeth a gafwyd, argymhellodd y Comisiynydd, yn ei hadolygiad, y dylid sicrhau bod gweithwyr cartrefi gofal yn cael hyfforddiant digonol drwy gyfrwng rhaglen sefydlu, orfodol, genedlaethol ynghyd â rhaglen hyfforddi barhaus i staff gofal. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod eich bod yn nodi yn eich adroddiad cynnydd i’r Comisiynydd,  y bydd Llywodraeth Cymru yn mapio’r hyfforddiant a gaiff ei ddarparu ar hyn o bryd ac yn ystyried y gwaith ymchwil a wnaed eisoes yn y maes yn hytrach nag yn datblygu darpariaeth newydd er mwyn sicrhau cysondeb yn yr hyfforddiant sylfaenol a gynigir.[24]

| |
|---|
| Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sydd ar y gweill i fapio’r hyfforddiant a gaiff ei ddarparu ar hyn o bryd ac i ystyried y gwaith ymchwil a wnaed eisoes er mwyn sicrhau cysondeb.  Mae'r Pwyllgor yn nodi mai proses a fydd yn datblygu’n raddol fydd hon ac y bydd angen amser cyn penderfynu ar yr hyfforddiant mwyaf priodol i ddiwallu’r holl anghenion. Serch hynny, mae'n credu bod angen ymgymryd â’r gwaith hwn yn fuan. Er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant yn ymdrin â phroblemau perthnasol, bydd angen i’r rhai sy’n darparu gofal, a’r rhai sy’n cael gofal, fynd ati i asesu’r sefyllfa’n barhaus. Mae’r Pwyllgor hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod hyfforddiant gorfodol i ymdrin â dementia yn cael ei gynnwys yn y pecyn hyfforddi ehangach. |

## Hanfodion Gofal

17. Nod y rhaglen Hanfodion Gofal, a lansiwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2003, oedd gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion.

18. Gan fod cartrefi gofal yn awr yn darparu triniaethau a fyddai gynt yn cael eu darparu mewn ysbytai, nododd y Comisiynydd fod angen cryfhau’r agenda

---

[22] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ‘Lle i’w alw’n gartref?' – Adolygiad i ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru, Tachwedd 2014
[23] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru
[24] Ibid

gofal mewn cartrefi gofal. Esboniodd nad oes unrhyw ddull systematig neu safonol o sefydlu canllawiau hanfodion gofal mewn cartrefi gofal gan nad yw monitro hynny'n rhan allweddol o waith AGGCC neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.[25]

**19.** Yn eich adroddiad diweddaru i'r Comisiynydd, nodwyd bod archwiliadau o Hanfodion Gofal wedi'u treialu mewn lleoliadau cymunedol yn 2014, yn wahanol i'r archwiliadau blaenorol a gynhaliwyd mewn ysbytai'n unig.[26] Er ei bod yn nodi'r datblygiad hwn, roedd y Comisiynydd yn parhau i bryderu nad oedd Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i ddangos sut y byddai'n cydymffurfio â'i hanghenion gweithredu mewn perthynas ag 'adrodd ar hanfodion gofal mewn cartrefi nyrsio'.[27]

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn egnïol ac yn gyflym i roi'r newidiadau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod hanfodion yr agenda gofal yn dod yn rhan annatod wasanaethau cartrefi gofal. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiynydd i gydymffurfio â'i hanghenion gweithredu mewn perthynas ag adrodd ar hanfodion gofal mewn cartrefi gofal nyrsio.

## Comisiynu gwasanaethau

**20.** Yn ymchwiliad cyntaf y Pwyllgor i ofal preswyl a'i waith craffu dilynol ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), cyfeiriwyd at bwysigrwydd comisiynu gwasanaethau'n strategol. Wrth graffu ar y Bil hwn, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylid gosod dyletswydd ar AGGCC i adolygu prosesau comisiynu awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn ôl canlyniadau ansawdd bywyd.[28]

**21.** Mae'r Comisiynydd wedi nodi droeon pa mor bwysig yw mabwysiadu arferion comisiynu o safon ym maes gwasanaethau cartrefi gofal.[29] Mae wedi tanlinellu pwysigrwydd sicrhau mai ystyriaethau'n ymwneud ag ansawdd bywyd, yn

---

[25] Cofnod y trafodion [paragraffau 23 – 24], 20 Ionawr 2016
[26] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, atodiad D
[27] Ibid, atodiad F
[28] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, Gorffennaf 2015
[29] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

hytrach na chost gwasanaethau, sydd wrth wraidd comisiynu.[30] Yn ystod y sesiwn ar 20 Ionawr, pwysleisiodd y Comisiynydd hefyd pa mor bwysig yw comisiynu ar lefel strategol a chenedlaethol:

> 'One of the big issues why poor care can exist is because there aren't alternatives available locally. The more we get on top of the market at a strategic level, long term, the more we crowd out that poor care. We should be investing in long-term, sustainable, quality-based relationships through our commissioning with providers who know they're in it for the long game and can invest.'[31]

22. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) wedi'i diwygio yn ystod y broses graffu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn adrodd ar swyddogaethau comisiynu yn eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol.[32] Drwy greu perthynas fwy effeithiol, a mwy hirdymor, rhwng comisiynwyr a darparwyr, mae'r Pwyllgor yn credu y gallai'r darparwyr hynny gynllunio ar gyfer eu busnes, recriwtio digon o staff a darparu digon o hyfforddiant a chyflogau i gadw'u gweithlu.

| |
|---|
| Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid mynd ati i gomisiynu'n strategol ar raddfa ac ar gyflymder a fydd yn datblygu'r sector ymhellach o ran y gwasanaethau a gaiff eu darparu. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau cynnydd yn y maes hwn a'r amser y mae'n credu y bydd ei angen i gyflwyno'r newidiadau. |

## Penodi Comisiynwyr

23. Yn ystod y sesiwn ar 20 Ionawr, nododd y Comisiynydd ei bod yn anodd, o safbwynt busnes, cynllunio'n ddigonol a chwblhau darnau o waith o fewn tymor gwasanaeth o bedair blynedd. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd canlyniadau arfaethedig ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch ymestyn ei thymor gwasanaeth wedi effeithio ar raglen waith y Comisiynydd. Dywedodd fod yr ansicrwydd ynghylch ymestyn ei thymor gwasanaeth yn ei gwneud yn anodd iddi gwblhau ei rhaglen waith. Aeth rhagddi i ddweud y

---

[30] Cofnod y trafodion [paragraff 67], 20 Ionawr 2016

[31] Cofnod y trafodion [paragraff 45], 20 Ionawr 2016

[32] Llywodraeth Cymru, Tabl diben ac effaith ar gyfer y gwelliannau Cyfnod 2 i Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a gyflwynwyd ar 23 Medi 2015, Medi 2015

byddai ymestyn ei thymor gwasanaeth yn dileu'r anghydraddoldeb rhwng ei swydd hi a swydd Comisiynwyr eraill.[33]

24. Er bod y Pwyllgor yn nodi y gallai Comisiynydd newydd gyflwyno blaenoriaethau newydd a fyddai'r un mor werthfawr â blaenoriaethau'r Comisiynydd presennol, byddai'n siomedig pe bai'r cynnydd a wnaed gan y Comisiynydd presennol, yn arbennig ym maes gofal preswyl i bobl hŷn, yn cael ei golli.

25. Mae'r Pwyllgor yn croesawu rôl bwysig y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru ac yn gwerthfawrogi'r ffaith bod eu swyddfeydd yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr anghydraddoldeb a'r annhegwch yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn penodi pob Comisiynydd, yn enwedig o ran eu tymor gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor yn nodi datganiad ysgrifenedig y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn ymateb i'r adolygiad annibynnol o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru, a gyhoeddwyd ar 9 Chwefror 2016, pan ddywedodd.

> 'Er ein bod yn deall rhesymeg cael mwy o gysondeb a chydlyniant rhwng Comisiynwyr, nid ydym wedi'n hargyhoeddi hyd yn hyn o'r angen am un darn o ddeddfwriaeth sy'n diffinio rolau a diben pob Comisiynydd, na bod angen diwygio deddfwriaeth bresennol er mwyn cynyddu cysondeb. Mae'n werth cofio bod llawer o'r gwahaniaethau rhwng y Comisiynwyr yn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn eu rolau a'u swyddogaethau. Mae'r rheinny'n perthyn yn benodol i'w cylchoedd gorchwyl unigol ac oherwydd hynny dylid eu cadw. […]
>
> Rydym wedi ymroi i wneud gwaith cychwynnol i ganfod yr hyn sydd ei angen ar gyfer deddfwriaeth ychwanegol, a'i ymarferoldeb. Ni fyddai'n bosibl deddfu tan dymor y Cynulliad nesaf. Byddai rhaid ystyried pryd y gellid creu deddf newydd wedyn yng nghyd-destun blaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn eu cyfanrwydd.'[34]

---

[33] Cofnod y trafodion [paragraffau 117 - 119], 20 Ionawr 2016

[34] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig - ymateb terfynol i'r adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru, 9 Chwefror 2016

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o’r gwaith o gwmpasu deddfwriaeth yn y dyfodol, yn ystyried yn ofalus y ddadl dros sicrhau cysondeb rhwng Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynwyr eraill Cymru o ran eu penodiad a’u tymor gwasanaeth.